# CYNGOR

## (*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mercher, 27 Ionawr 2021** |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Councillor S.Jones** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor J.Warman** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, S.Bamsey, D.Cawsey, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, N.J.E.Davies, O.S.Davies, R.Davies, C.Edwards, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, J.Hale, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, H.N.James, C.J.Jones, D.Jones, H.Jones, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, A.McGrath, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, R.Phillips, M.Protheroe, L.M.Purcell, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, M.Spooner, A.J.Taylor, R.L.Taylor, D.Whitelock, C.Williams, A.Wingrave, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Curran, A.Evans, C.Griffiths, R.Headon, A.Jarrett, H.Jenkins, K.Jones, N.Pearce a/ac J.Woodman-Ralph |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R MAER**

Clywodd y Cyngor fod 100,000 o farwolaethau wedi'u cofnodi ddoe o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Fel arwydd o barch, cafwyd munud o ddistawrwydd yng nghyfarfod y cyngor.

Estynnodd y Maer gydymdeimlad y cyngor hefyd i bawb yr effeithiwyd arnynt gan y llifogydd diweddar yn Sgiwen a diolchodd i'r holl staff ac asiantaethau partner a fu'n ymwneud â'r argyfwng.

Roedd y Maer yn falch o gyhoeddi'r derbynwyr canlynol a oedd yn Fedalyddion Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2021:

Robert Malcolm Davies, Cwnstabl Arbennig, Heddlu De Cymru, am wasanaethau gwirfoddol i Blismona yng Nghastell-nedd.

Vicki Broed, Pennaeth Gofal Tymor Hir, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – am wasanaethau i GIG Cymru yn ystod yr ymateb i COVID-19, sy'n byw yng Nghastell-nedd.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 3. COFNODION CYFARFOD(YDD) BLAENOROL Y CYNGOR (BLWYDDYN DDINESIG 2020/21

**PENDERFYNWYD:** Cadarnhau cofnodion y cyngor a gynhaliwyd ar 2 a 23 Rhagfyr 2020 fel cofnodion cywir o'r cyfarfodydd, yn amodol ar ychwanegu'r Cynghorydd P A Rees at bresenoldeb yr ail gyfarfod ym mis Rhagfyr.

## 4. CYNLLUN GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR 2021/22

Cyflwynodd y Cyng. C Clement-Williams, Aelod y Cabinet dros Gyllid yr adroddiad.

Yn dilyn yr uchod, gofynnodd yr Aelodau a oedd arian wedi'i gynnwys i dalu am unrhyw gynnydd ychwanegol mewn hawliadau i'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar gyfer 2021/2022, yng ngoleuni pandemig parhaus COVID-19. Esboniwyd bod y gyllideb ddrafft ar gyfer ymgynghori'n cynnwys £500,000 yn ychwanegol ar gyfer 2021/2022 a bod Llywodraeth Cymru, mewn perthynas â'r flwyddyn gyfredol, wedi ad-dalu Castell-nedd Port Talbot ar gyfer y costau uwch a gafwyd hyd yma ac wedi nodi y byddai'n parhau i wneud hynny am weddill y flwyddyn. Caiff hyn ei adolygu'n barhaus i sicrhau bod yr holl arian yn cael ei adennill ond yn ogystal, roedd arian wedi'i ddyrannu yn y gyllideb i gefnogi hyn.

**PENDERFYNWYD:** 1.Y byddai Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, fel y'u diwygiwyd ymhellach gan Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a’r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2021 yn cael eu mabwysiadu.

2.Rhoi cymeradwyaeth i gadw'r elfennau dewisol presennol mewn perthynas â'r Cynllun Rhagnodedig.

(a) Ni fydd unrhyw gynnydd yn y cyfnod ôl-ddyddio ar gyfer pob hawliwr yn cael ei roi ar waith o'r 3 mis safonol a gynhwysir yn y Cynllun Rhagnodedig.

(b) Ni fydd unrhyw gynnydd yn y cyfnod gostyngiad estynedig ar gyfer pob hawliwr yn cael ei roi ar waith o'r 4 wythnos safonol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Rhagnodedig ar hyn o bryd.

(c) Y bydd diystyriad o 100% yn cael ei roi ar waith ar gyfer Pensiynau Anabledd Rhyfel, Pensiynau Gweddwon Rhyfel a Phensiynau Gŵyr Gweddw Rhyfel i bob hawliwr.

## 5. ADRODDIADAU MONITRO'R RHAGLEN GYFALAF

Cyflwynodd y Cyng. C Clement-Williams, Aelod y Cabinet dros Gyllid, yr adroddiad a gymeradwywyd i'r cyngor gan y Cabinet yn ystod ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2021.

Diolchodd yr Aelodau i swyddogion am adroddiad rhagorol a nododd y buddsoddiad enfawr sy'n cael ei wneud gan y cyngor, a gofynnon nhw sut roedd y gwaith i gyflwyno’r prosiectau amrywiol yn cael ei fonitro i ganfod effaith pandemig COVID-19. Dywedodd swyddogion

fod y prosiectau'n cael eu monitro'n rheolaidd a'u bod ar y trywydd iawn, bod hanner yr arian a ddyrannwyd eisoes wedi'i dalu a bod disgwyl i’r gweddill gael ei wario erbyn diwedd mis Mawrth 2021.

**PENDERFYNWYD**

1. Cymeradwyo cyllideb 2020/2021 sy'n dod i gyfanswm o £70.682miliwn.
2. Nodi swm y gwariant ar 31 Rhagfyr 2020.

## 6. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020 - 2024 - CAMAU GWEITHREDU I FODLONI'R AMCANION CYDRADDOLDEB

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd D. Jones, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chydraddoldeb.

Roedd yr Aelodau'n hapus gyda'r gwaith yr oedd Swyddogion wedi'i wneud i ddatblygu'r cynllun gweithredu i sicrhau bod y cyngor yn bodloni'r amcanion cydraddoldeb.

Yn dilyn hyn, gofynnodd yr Aelodau am y canlynol:

- Yn yr adroddiad mae'n nodi y byddai contractau dim oriau yn cael eu disodli gan gontractau achlysurol neu dros dro. A allai swyddogion gadarnhau nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn cyflogi staff ar gontractau dim oriau. Cadarnhawyd nad yw'r awdurdod yn cyflogi unrhyw un o'i staff ar gontract dim oriau.
- Pa gynlluniau oedd ar waith i sicrhau bod yr awdurdod yn rhoi cyfle cyfartal i gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) o ran cyflogaeth? Esboniwyd bod y cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth BAME gan y cydnabuwyd bod angen gwneud mwy o waith. Cynhaliwyd trafodaethau â staff a'r Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant. Ar hyn o bryd, roedd fforwm gweithwyr BAME yn cael ei drefnu i helpu i ddatblygu'r cynllun gweithredu.
- Sut mae effaith pandemig COVID-19 wedi'i mesur o ran Cam-drin Domestig? Mewn ymateb, eglurodd swyddogion y cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y gymuned i fesur effaith y pandemig ar wahanol rannau o gymunedau. Mae'r asesiad

wedi dangos y bu effaith anghymesur ar rai pobl yn fwy nag eraill. Roedd yr asesiad yn cael ei ddiweddaru'n barhaus ac roedd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i lywio'r blaenoriaethau presennol wrth i ni ymateb i'r pandemig, ac wrth i'r sefyllfa ddatblygu ac wrth i ni gael rhagor o wybodaeth am sut mae'r pandemig yn effeithio ar gymunedau, byddai'r cynllun gweithredu'n parhau i gael ei ddiweddaru a'i gyflwyno eto i'r aelodau maes o law.

- A yw'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu cynrychioli fel grŵp ethnig yn y grwpiau BAME? Hefyd, a oedd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer lletya Sipsiwn a Theithwyr wrth gyrraedd Castell-nedd Port Talbot? Sicrhawyd yr Aelodau fod amrywiaeth o ffyrdd y mae swyddogion yn ymgysylltu â'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr a phan oedd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei ddatblygu, roedd swyddogion a oedd â chysylltiadau â'r cymunedau hynny'n rhan o hyn. Clywodd yr Aelodau nad oedd unrhyw safleoedd tramwy Sipsiwn a Theithwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot er bod rhai ar gael gan awdurdodau cyfagos. Mae gan Gastell-nedd Port Talbot ddau safle awdurdodedig lle'r oedd llety ar gael. Mae'r ddau safle wedi'u cynnwys yn yr asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gynllunio ar gyfer anghenion yn y dyfodol, cyflwyno'r ddarpariaeth briodol a'i nodi yn y Cynllun Datblygu Lleol a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD:**

1. Mabwysiadu'r camau gweithredu a ddatblygwyd i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb.

2. Y byddai'r Pennaeth Datblygu Dynol a Sefydliadol yn cael ei awdurdodi i gyhoeddi'r camau gweithredu fel rhan o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

7. **PENODI DIRPRWY SWYDDOG CANLYNIADAU SEFYDLOG**

Derbyniodd y cyngor wybodaeth am benodi Dirprwy Swyddog Canlyniadau sefydlog fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Y bydd Rhys George (Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol) yn cael ei benodi'n Ddirprwy Swyddog Canlyniadau sefydlog y cyngor.

8. **TREFNIADAU'R MAER**

Ystyriodd y cyngor Drefniadau'r Maer fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:**

1. Y bydd y Cynghorydd John Warman yn cael ei ethol yn Faer ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2021/2022 yn unol ag Adran 23(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

2. Y bydd y Cynghorydd Del Morgan yn cael ei hethol yn Ddirprwy Faer ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2021/22 yn unol ag Adran 23(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

9. **COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL Y CABINET A BYRDDAU'R CABINET**

Nododd y cyngor y Cofnodion canlynol am Benderfyniadau’r Cabinet:

20 Tachwedd 2019,
9 Rhagfyr 2019,
10 Ionawr 2020,
5 Chwefror 2020,
12 Chwefror 2020,
19 Chwefror 2020,
5 Mawrth 2020,
21 Mai 2020,
25 Mehefin 2020,
30 Gorffennaf 2020,
2 Medi 2020,
17 Medi 2020,
30 Medi 2020,
21 Hydref 2020,
4 Tachwedd 2020,
11 Tachwedd 2020,

25 Tachwedd 2020,
10 Rhagfyr 2020.

10. **RHYBUDD O GYNNIG O DAN ADRAN 10 RHAN 4 (RHEOLAU GWEITHDREFNAU) O GYFANSODDIAD Y CYNGOR**

Nid oedd unrhyw Rybudd o gynnig o dan Adran 10 Rhan 4 (Rheolau Gweithdrefnau) o Gyfansoddiad y Cyngor.

11. **CWESTIYNAU GAN AELODAU, GYDA RHYBUDD, DAN REOL 9.2 RHEOLAU GWEITHDREFNAU'R CYNGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau dan Reol 9.2 o Reolau Gweithdrefn y Cyngor.

12. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r mater a gynhwysir yng Nghofnod Rhif 13 isod yn awr, cytunodd y Maer y gellid ei drafod yng nghyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Rheswm

Oherwydd yr elfen amser.

13. **COVID-19 - DIWEDDARIAD LLAFAR**

Anerchodd yr Arweinydd y cyngor ar y sefyllfa bresennol o ran COVID-19.

Mae cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth wedi gostwng ymhellach. Ar 14 Ionawr cofnodwyd cyfradd o 363.5 a chofnodwyd cyfradd bositifedd o 20.2%. Ar 24 Ionawr roedd y cyfraddau wedi gostwng i 235.8 a 17.2%, yn eu trefn. Mae'r lefelau presennol yn cymharu â'r rheini a welwyd adeg y cyfnod atal byr diwethaf. Ar 27 Ionawr 2021 roedd y ffigurau wedi gostwng ymhellach i 187.7 gyda chyfradd bositifedd o 15.1.

Ar hyn o bryd, mae 3 amrywiolyn newydd sy'n peri pryder (VOC), sef amrywiolyn Caint, amrywiolyn De Affrica ac amrywiolyn Brasil yn y DU. Yng Nghymru, nodwyd 10 achos o amrywiolyn De Affrica. Nodwyd bod yr holl amrywiolion hyn yn fwy trosglwyddadwy. Mae tystiolaeth wedi dod i'r amlwg y gallai fod gan amrywiolyn Caint gyfradd farwolaethau ychydig yn uwch gydag 13 o achosion fesul 1,000 o'i chymharu â 10 fesul 1,000. Yng Nghymru roedd 50% o'r achosion a brofwyd yn achosion amrywiolyn Caint. Yn ogystal, mynegwyd pryder y gallai amrywiolyn Brasil a De Affrica effeithio ar effeithiolrwydd y brechlynnau. O ganlyniad mae llywodraeth y DU wedi cyflwyno cyfyngiadau teithio.

Er bod nifer yr achosion yn lleihau, mae'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i fod dan straen difrifol. O ganlyniad, rhaid i gymunedau beidio â bod yn hunanfodlon, rhaid cadw at y canllawiau o hyd.

Mae nifer y bobl sy'n cael eu profi'n parhau i fod cryn dipyn yn is na'r hyn a welwyd cyn gwyliau'r Nadolig. Mae'r rhesymau dros hyn yn aneglur o hyd. Mae'r gallu i brofi wedi cynyddu ac roedd pryder ynghylch y posibilrwydd nad oedd pobl yn gwneud cais am brofion. Mae cyfathrebu cyhoeddus wedi cynyddu i annog pobl i gael eu profi ni waeth pa mor ysgafn yw eu symptomau oherwydd heb yr wybodaeth hon roedd yn anodd deall sut roedd y clefyd yn cael ei drosglwyddo mewn cymunedau.

Tynnwyd sylw Llywodraeth Cymru at bryderon ynghylch y dulliau profi ychwanegol sy'n cael eu cyflwyno mewn prifysgolion a Tata Steel, er enghraifft. Os nad yw'r rhain wedi'u hintegreiddio'n llawn yn y trefniadau Profi, Olrhain a Diogelu, roedd risg y byddai'r system yn cael ei thanseilio.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod brechiadau'n mynd rhagddynt, a bod 37,236 (ar 26 Ionawr 2021) o frechiadau wedi'u rhoi yn ardal Bwrdd Iechyd Bae Abertawe. Nododd yr Aelodau fod angen cadarnhau'r data hwn gan fod oedi yn yr wybodaeth a gafwyd gan feddygfeydd a oedd yn rhoi'r brechlyn. Roedd angen rhagor o ddata ar y dadansoddiad o'r grwpiau sy'n cael brechlynnau i ddangos darlun mwy clir o'r cynnydd a wnaed o ran brechu'r pedwar grŵp blaenoriaeth uchaf erbyn 14 Chwefror 2021.

Roedd pwysau'n tyfu i ychwanegu poblogaethau eraill at y rhestrau blaenoriaeth, ond mae Llywodraeth Cymru yn dilyn cyngor y Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio, ac felly ni fyddai'r grwpiau hyn

yn cael eu hystyried i'w cynnwys ar y rhestr flaenoriaethau tan Gam 2.

Mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio diffiniadau o bwy sy'n cael brechiadau yn y gweithlu gofal cymdeithasol a allai arwain at beidio â chynnwys y gweithlu gofal cymdeithasol plant. Hefyd, roedd y cyngor yn dal i aros i gyflwyno staff cymwys o ysgolion arbennig i gael eu brechu. Cafwyd oedi mewn penderfyniadau polisi o fewn Llywodraeth Cymru ynghylch pwy fyddai'n cael eu cynnwys er i Lywodraeth Cymru gyhoeddi y byddent yn cael eu cynnwys rhai wythnosau'n ôl.

Roedd pwysau gwasanaeth yn dal i barhau yn y maes gofal cymdeithasol i oedolion, gyda nifer o gartrefi gofal mewn perygl. Hefyd, cafwyd cynnydd yn nifer y clystyrau yn y maes gofal cartref.

Cyhoeddwyd na fyddai Lloegr yn agor ysgolion tan ar ôl gwyliau hanner tymor neu'n hwyrach oherwydd diffyg data i'w galluogi i wneud penderfyniad. Rydym yn aros am gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar yr ymagwedd i’w rhoi ar waith yng Nghymru. Roedd 95% o boblogaeth disgyblion Castell-nedd Port Talbot wedi parhau i ddysgu o bell. Rhoddwyd dyfeisiau un i un i ddisgyblion a myfyrwyr Cyfnod Allweddol 3 i 5. Hefyd, rhoddwyd un i bob aelod o staff yr oedd angen dyfais arno i'w alluogi i ddarparu dysgu o bell.

Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddai'r cymwysterau diwedd blwyddyn yn cael eu dyfarnu’n seiliedig ar raddau asesu canolfannau. Roedd pryder ynglŷn â'r broses gan nad oedd lleiafrif sylweddol o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 wedi bod yn ymwneud â dysgu o bell ac ni ellid peryglu'r sylfaen dystiolaeth y mae ei hangen ar gyfer asesiadau cywir. Roedd gwaith yn parhau i ddatrys yr heriau hyn.

Roedd swyddogion gwella ysgolion wedi bod yn monitro ymgysylltiad disgyblion â dysgu, ac roeddent yn parhau i wneud hyn, a dangosodd y data diweddaraf, er bod y niferoedd yn cynyddu, fod darlun anghyson o hyd gyda chanran y disgyblion sy'n ymwneud â dysgu o bell yn amrywio o 45% i bron 100%. Mae gwaith yn parhau i gefnogi ysgolion i oresgyn problemau er mwyn sicrhau cyfradd ymgysylltu gyson uwch.

Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a Llywodraeth Cymru i nodi opsiynau ar gyfer dod â disgyblion yn ôl i ddysgu ar y safle. Ar hyn o bryd, y cyngor oedd y dylid rhoi blaenoriaeth i'r disgyblion hynny sy'n teimlo bod dysgu yn y cartref yn fwy cyfyngol a'r rheini ag anghenion dysgu ychwanegol.

Roedd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried sut byddai ailagor ysgolion yn cael ei hwyluso.

Maes arall a oedd yn peri pryder oedd brechu staff mewn ysgolion sy'n darparu gofal personol agos. Rydym yn aros am eglurhad o ddiffiniad 'gofal personol agos' gan Lywodraeth Cymru gan fod darlun anghyson ledled Cymru. Roedd nifer o gynghorau a Byrddau Iechyd wedi dechrau brechu staff mewn ysgolion, a grwpiau staffio eraill yn seiliedig ar ddehongliadau lleol. Roedd ysgolion Castell-nedd Port Talbot yn aros am arweiniad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Roedd hyn yn achosi cryn densiwn a her ddilys i undebau llafur.

Byddai swyddogion yn dechrau ymdrin â'r ffordd y byddai adferiad yn cael ei drafod yn ystod y mis nesaf, gyda gwaith manwl yn dechrau tuag adeg y Pasg, yn amodol ar y cyd-destun cyffredinol.

Diolchodd yr Aelodau i'r Arweinydd am adroddiad mor gynhwysfawr a chodwyd y cwestiynau canlynol:

- O ran gwahanol amrywiolion COVID, beth sy'n cael ei wneud i brofi'r brechlyn er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i weithio ar yr holl amrywiolion newydd? Esboniwyd bod gwaith yn parhau i ymchwilio i effeithiau'r gwahanol amrywiolion ond nad oedd unrhyw wybodaeth newydd ar hyn o bryd. Cyfarfu'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn rheolaidd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac roeddent yn hapus i godi'r cwestiwn yn y fforwm hwnnw.
- A oedd rheswm pam y bu cynnydd yn y gyfradd farwolaethau neu a oedd hyn oherwydd oedi cyn i'r data gael ei dderbyn? Roedd y data'n cymharu'r niferoedd yn erbyn blwyddyn arferol, ac roedd unrhyw un a oedd yn profi'n bositif am COVID-19 o fewn cyfnod o 28 diwrnod ac a fu farw yn cael ei ychwanegu at nifer y marwolaethau oherwydd COVID-19.
- Gofynnodd yr Aelodau a oedd plant ysgol wedi derbyn dyfais er mwyn gallu dysgu o bell? Cafwyd cadarnhad fod holl blant cyfnod allweddol 3 a 5 wedi derbyn dyfeisiau. Bu oedi wrth ddosbarthu'r archebion a wnaed, ond derbyniwyd y dosbarthiad yr wythnos hon felly byddai pob plentyn ysgol uwchradd yn derbyn dyfais ar gyfer dysgu un i un. Neilltuwyd dyfeisiau i blant ysgol gynradd ar sail 1 rhwng 3 neu 5.
- A oedd unrhyw drafodaethau'n cael eu cynnal â darparwyr band eang i gynorthwyo gyda phroblemau cysylltedd? Mewn achosion o broblemau cysylltedd, esboniwyd bod y disgyblion

hynny wedi derbyn *MiFi Dongle* i'w galluogi i gysylltu. Gofynnwyd i'r Aelodau a oeddent yn ymwybodol o unrhyw ddisgybl a oedd yn profi problemau cysylltedd fel y gellir cynghori rhieni i gysylltu â'u hysgol, ond ni chodwyd unrhyw broblemau gyda'r Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**<u>Y Diweddaraf am Lifogydd Sgiwen</u>**

Parhaodd yr Arweinydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol yn Sgiwen yn dilyn y llifogydd diweddar.

Ddydd Iau, 21 Ionawr 2021, derbyniwyd gwybodaeth am ddigwyddiad llifogydd sylweddol ym Mharc Goshen, Sgiwen. O ganlyniad, rhoddwyd ymateb brys ar waith. Yn dilyn hynny, datganwyd digwyddiad mawr gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a chynullwyd Grŵp Cydgysylltu Strategol.

Cafodd wyth deg o gartrefi eu gwagio ond ar ôl i'r bygythiad uniongyrchol i fywyd gael ei reoli, sylwyd ar bant dwfn wrth gyffordd Heol Drummau a Pharc Goshen felly cafodd 30 o dai eraill eu gwagio.

Cadarnhawyd yr achoswyd y llifogydd gan bwysedd dŵr gormodol mewn siafft yn un o’r hen byllau glo segur yn yr ardal.

O ganlyniad, mae'r Awdurdod Glo yn arwain yr ymchwiliad i achos y digwyddiad a byddai hefyd yn arwain ar waith adferol ar gyfer y dyfodol agos i benderfynu ar ateb tymor hwy ar gyfer ymdrin â dŵr y pwll glo.

Roedd y tîm Strydlun a Draenio wedi gwneud gwaith eithriadol o ran gosod draeniad dros dro i arwain y dŵr sy'n dal i ollwng o’r pwynt lle y dihangodd o’r pwll i mewn i system ddraenio. Yn ogystal, aethant ati i lanhau a chlirio asedau'r briffordd yn yr ardal yr effeithiwyd arni. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol gan breswylwyr a phartneriaid am ymateb y cyngor.

Sefydlodd y Gwasanaethau Cymdeithasol ganolfan orffwys yng Nghwrt Herbert i ymdrin â'r preswylwyr a oedd wedi gorfod gadael eu cartrefi. Roedd yr holl breswylwyr wedi llwyddo i sicrhau llety gyda ffrindiau, teulu, cymdogion neu mewn gwestai lleol. Cefnogwyd staff y Ganolfan Orffwys gan Fyddin yr Iachawdwriaeth, pobl leol, busnesau a'r Cydlynydd Ardal Leol i ddosbarthu parseli bwyd a dillad.

Sefydlwyd canolfan wybodaeth i breswylwyr yn Ysgol Gynradd Abbey gyda thros 60 o drigolion yn ymweld â'r ganolfan dros y penwythnos. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i ymestyn rôl y ganolfan i gynnwys ystod ehangach o asiantaethau i gynorthwyo gyda'r broses adfer.

Sefydlwyd llinell gyngor a gwefan bwrpasol i hwyluso gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau darlledu. Mae Prif Weinidog Cymru wedi ymweld â'r safle. Derbyniwyd canmoliaeth am y ffordd yr aed i'r afael â hyn.

Mae’r cyngor yn mynd i arwain ar y broses adfer gyda grŵp adfer amlasiantaethol yn cael ei gynnull i edrych ar y blaenoriaethau uniongyrchol.

Nododd yr Aelodau y byddai'r effaith ar breswylwyr, yn gorfforol ac yn seicolegol, yn parhau am fisoedd lawer. Roedd system ar-lein yn agor i wneud taliadau i breswylwyr ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd eithriadau treth y cyngor hefyd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer yr holl eiddo yr effeithiwyd arnynt.

Roedd cerbydau gwaredu gwastraff yn cael eu defnyddio ac roedd cyngor iechyd cyhoeddus yn cael ei ddarparu drwy Iechyd yr Amgylchedd, yn y ganolfan wybodaeth i ddechrau ac yna drwy wasanaeth o ddrws i ddrws.

Byddai adroddiadau diweddaru’n cael eu rhoi i'r Aelodau o bryd i'w gilydd.
Canmolodd y cyngor waith staff a phartneriaid Castell-nedd Port Talbot wrth ymateb i'r argyfwng hwn. Yn ogystal, diolchodd y cyngor i gymunedau, busnesau a gwirfoddolwyr lleol ac aelodau lleol a oedd wedi cefnogi'r preswylwyr hynny yr effeithiwyd arnynt.

Trafododd yr Aelodau'r canlyniadau parhaus yr oedd hen byllau glo’n eu cael ar yr ardal, a Chymru gyfan, a'r costau parhaus o ran lliniaru'r canlyniadau hynny. Rhoddwyd cadarnhad fod yr Awdurdod Glo yn atebol i Lywodraeth y DU ac mai Llywodraeth y DU fyddai’n sbarduno unrhyw waith archwilio ac adfer. Cafwyd trafodaethau â Llywodraeth Cymru ar ganlyniadau cloddio yn yr ardal ac mae llythyr wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan Mr. Stephen Kinnock A.S. yn amlinellu'r materion.

**CHAIRPERSON**